

Enw: Sara Mai Davies

Rhif myfyriwr: 2000381

Teitl yr Aseiniad: Adfyfyriwch yn feirniadol ar eich cynnydd addysgegol a amlygwyd trwy elfennau gofynnol y Pasbort Dysgu Proffesiynol, gan nodi maes penodol ar gyfer datblygiad proffesiynol a chyfiawnhau'r camau nesaf ar gyfer gwella.

	Targed	Yr hyn rwyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn...
Targed 1	Golygu'r gwaith yn drwyadl cyn cyflwyno er mwyn osgoi marciau cwestiwn yma a thraw ac i wirio mân wallau ieithyddol fel nodir yn y sylwadau ar y testun.	Sicrhau fy mod yn darllen ac ail-ddarllen fy ngwaith cyn ei gyflwyno, a'i roi drwy cysill er mwyn osgoi mân wallau iaith.

Rhan 1: Pasbort Dysgu Proffesiynol

Pontio 2 Myfyrio

Cwrdd

Tystiolaeth / Evidence	Adfyfyrio / Reflect
Yn ystod y diwrnod Pontio gynhaliwyd gan arweinydd y rhwydwaith ar-lein, fe drafodom bwysigrwydd asesu ar gyfer dysgu, a sawl dull gwahanol. Fe ddaethom i adnabod dulliau gwahanol y gallwn ni arbrofi gyda nhw ac ystyried manteision rhai ohonynt.	Mae asesu ar gyfer dysgu yn chwarae rhan flaengar yn y Cwricwlwm i Gymru 2022 ac o ganlyniad mae'n hynod o bwysig ein bod yn ymgyswngtu gyda dulliau gwahanol, dod i nabod pa strategaethau sy'n profi llwyddiant yn ein dosbarth, a pha ddulliau sy'n addas ar gyfer ba oeddrannau neu alluoedd academiaidd. Nid yw'r un strategaethau'n profi'r un llwyddiant ymhob dosbarth neu gyda phob unigolyn, hyd yn oed (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). Er ei fod yn arfer sydd wedi seilio'n gadarn o fewn ymchwil, ac effaith asesu ar gyfer dysgu ar ddysgu disgyblion wedi'i brofi'n gadarnhaol iawn, mae gweithredu'r strategaethau'n llwyddiannus ar lawr y dosbarth yn broses cymhleth iawn. Noda William (2011) bod defnyddio asesu ar gyfer dysgu ar ddechrau, canol a diwedd bob gwers yn sicr o gael effaith cadarnhaol ar ddysgu ac yn y pendraw ar gyraeddiadau disgyblion. Yn ogystal, mae'n sicrhau bod disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu ac yn hynod o weithredol yn y broses dysgu (Harison & Howard, 2009). Mae yna ystod eang iawn o strategaethau asesu ar gyfer dysgu, a'u heffeithiolrwydd yn amrywio ar draws ac o fewn ysgolion, felly mae arbrofi gyda'r rhain yn hanfodol.

Profi

Tystiolaeth / Evidence	Adfyfyrio / Reflect
Cawsom ychydig o amser i arbrofi dulliau gwahanol yn ein hysgol leoliad, ac yn ystod yr amser yma fe wnes i gymryd y cyfle i arbrofi sawl dull gwahanol. Y dull cyntaf roeddwn yn awyddus i arbrofi gydag oedd "mêts meddwl", sef meddwl, paru, rhannu. Yn y dull hwn mae gofyn i'r disgyblion feddwl yn unigol am atebion, trafod gyda phartner yna rhannu gyda gweddill y grŵp neu'r dosbarth. Yr wythnos hon, tasg ffocws y grwpiau oedd taith synhwyrâu yn yr ardal leol. Yn dilyn y daith a thrafod synhwyrâu, fe wnes i ofyn i'r plant feddwl am ddau beth roedden nhw'n cofio gweld, yna troi at bartner a rhannu'r syniadau yma gyda nhw, ac yna fe wnes i ddewis cwpl o bartneriaid i rannu eu geirfa gyda'r dosbarth yn eu tro. Dull arall fe wnes i dreialu oedd bodiau i fyny/bodiau i lawr. Felly ar ôl esbonio tasgau ac ar ôl iddynt gyflawni tasgau, defnyddiais y dull yma i asesu dealltwriaeth a hefyd i asesu mwynhad er mwyn llywio fy nghynlluniau ar gyfer yr wythnos ganlynol. Yn olaf, dull asesu ar gyfer dysgu mae'r ysgol yn ei ddefnyddio yn llyfrau'r plant yw ymyrru ar y pryd o ran rhoi targedau ffurfio i'r disgyblion gael ymarfer ar y pryd os ydyn nhw'n ffurfio llythyren neu rif yn anghywir Y dull olaf wnes i dreialu oedd dull asesu ar gyfer dysgu wedi ei blannu yn yr ysgol yn	O ran mêts meddwl, ni weithiodd hwn cystal â beth oeddwn i'n dymuno. Roedd hyn yn ddull hollol newydd i'r plant ac o ganlyniad wedi achosi ychydig o ddryswch ac roedd angen llawer iawn o broptio, er roeddwn yn disgwyl hyn i raddau. Felly, teimlais fe wnaeth hyn amharu ar y dysgu yn ystod y cyflwyniad ychydig. Er mwyn i'r dull yma i weithio'n llwyddiannus bydd angen llawer o ddyfalbarhau ac ymarfer. Felly bwriadaf ei ddefnyddio'n fwy aml dros yr wythnosau nesaf er mwyn iddo gael y canlyniad dymunol ar y dysgu ac asesu. Mae dull bodiau i fyny yn gweithio'n effeithiol yn fy marn i, mae'n ddull cyflym er mwyn asesu dealltwriaeth a mwynhad. Un anfantais yw bod rhai plant yn dechrau copïo ffrindiau neu'n rhoi bawd i fyny gan nad ydyn nhw'n llwyr ddeall nod y dull, ond wrth ei ddefnyddio'n fwy aml roeddwn yn gweld bod y plant yn deall yn well ac yn dechrau ateb yn fwy onest. Ffeindiais y dull yma'n hynod o effeithiol i asesu mwynhad tasgau, a dyma pryd roedd y plant yn onest iawn. Er enghraifft, daethom i'r casgliad bod plant yn fwy hoff o dasgau mwy corfforol a symud tu hwnt i'r ddesg i amgylchau dysgu gwahanol, yn hytrach na chyflawni taflenni gwaith yn unig. Er enghraifft cefais mwy o fodiau i fyny'n dilyn y dasg hon a thasg helpa drysor na thasg taflen waith mathemateg.

barod, sef dull gosod targedau i wirio camgymeriadau ffurfio yn y dasg ffocws. Yn dilyn i dasg, roedd gofyn i mi fonitro a nodi llythyren roeddent wedi ffurfio'n gywir er mwyn ei osod fel seren, a llythyren nad oeddent wedi ffurfio'n gywir er mwyn ei osod fel targed i ymarfer. Yn syth ar ôl y dasg, roeddwn yn gosod llinellau a llythrennau i ffurfio drostynt er mwyn iddynt gael ymarfer. Roedd y disgyblion MATH yn ffurfio ar linell heb lawer o gymorth, e.e. ffurfio dros fy llythyren i dwywaith cyn cyflawni tua deg lythyren arall. Yna'r disgyblion llai abl yn gwneud ffurfio enfys, sef ffurfio dros lythyren fawr sawl tro mewn sawl lliw gwahanol.	Yn olaf, mae'r dull o dargedau ffurfio yn eu llyfrau wrth ymyrru ar y pryd yn ddull effeithiol er mwyn i blant deall ble maen nhw'n mynd yn anghywir ac yn rhoi cyfle iddynt gywiro eu hun cyn do di ddiwedd y dasg.
--	---

Rhannu

Tystiolaeth / Evidence	Adfyfrio / Reflect
Yn ystod y diwrnod rhannu, fe wnes i gyflwyno fy mhrofiadau'n treialu dulliau asesu ar gyfer dysgu yn y dosbarth derbyn. Fe wnes i hyn ar ffurf pwerbwynt yn cynnwys pa ddulliau roeddwn wedi profi, sut roedden nhw wedi gweithio, lluniau fel tystiolaeth, a beth rwy'n bwriadu gwneud nesaf. Hefyd, fe wnes i fanteisio ar y cyfle i wrando ar brofiadau eraill yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.	Roedd y profiad o rannu'n un fanteisiol iawn drwy rannu syniadau efallai nad oedd eraill wedi treialu, a chlywed am ddulliau nad oeddwn i wedi treialu ond rhai wnaeth weithio'n effeithiol mewn ysgolion eraill. Roedd hefyd yn fuddiol i glywed am ddulliau oedd wedi gweithio'n effeithiol yng nghyfnod allweddol 2, ac fe wnes i nodyn o rai ohonynt i gadw mewn cof ar gyfer fy mhrofiad i yn y cyfnod allweddol hwn ar ôl Nadolig. Roedd hefyd yn ddiddorol nodi bod mwy o sgôp yn y dulliau sy'n gweithio i ddosbarthiadau hynaf yr ysgol o'i gymharu â chyfnod sylfaen, lle mae'r plant yn iau ac felly dulliau mwy syml sydd fwyaf effeithiol ar eu cyfer nhw. Felly edrychaf ymlaen at dreialu dulliau gwahanol, mwy cymhleth ym mlwyddyn 5 ar ôl Nadolig.

DGB/SKD

Llythrennedd / Llythrennedd

Tystiolaeth o ased? ✓

Teimlaf fod llythrennedd yn gryfder i mi, ac rwyf o hyd wedi bod yn angerddol am y pwnc. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd hybu a hyrwyddo sgiliau ysgrifennu, darllen a llafar mewn ffyrdd creadigol a hwyliog yn gallu bod yn sialens. Wedi arsylwi llwyddiant defnydd o Fflipgrid a'r gallu sydd gan y feddalwedd i hyrwyddo'r tri sgil yma, teimlaf fod hyn yn ddull gwych i alluogi gwelliannau yn y Maes Dysgu a Phrofiad hwn, felly fe ymchwiliais am y feddalwedd yma, a chyflawni'r cwrs yma ar-lein. Rwyf bellach yn hyderus yn gosod tudalen fflipgrid i fyny a'i rhannu ag eraill, yn gadael unrhyw adborth boed ar lafar neu'n ysgrifenedig ac yn arbed a rhannu fflipgridau. O ganlyniad teimlaf lawer mwy hyderus yn defnyddio'r wefan ac yn sicr o'i ddefnyddio'n aml mewn gwersi yn y dyfodol.

Rhifedd / Numeracy

Tystiolaeth o ased? ✓

Er bod Mathemateg a Rhifedd yn gryfder mawr i mi, a theimlaf yn hyderus iawn yn ei ddefnyddio, mae addysgu ac esbonio technegau a dulliau ar lawr y dosbarth mewn modd y bydd pob disgybl yn ei ddeall yn weithred llawer mwy cymhleth. O ganlyniad, penderfynais gymryd cwrs am Fathemateg Pob Dydd er mwyn atgoffa fy hun o rai sgiliau nad wyf wedi eu defnyddio am flynyddoedd gan ddilyn technegau cam wrth gam fel byddai angen i ateb cwestiynau mewn dosbarth. Mae hyn yn sicr wedi datblygu fy hyder yn fy ngallu i esbonio cymaint o broblemau a dulliau ateb cwestiynau Mathemateg. Yn ogystal, wedi datblygu fy sgiliau a gwybodaeth yn y maes rhesymu.

Cymhwysedd Digidol / Digital competence

Tystiolaeth o ased? ✓

Yn amlwg, mae dysgu o bell yn arfer newydd i bawb, ac yn arfer bu'n rhaid i gymaint o athrawon a disgyblion addasu i'w ddefnyddio yn ddyddiol er mwyn darparu a derbyn addysg. Yn ystod fy nghyfnod ar leoliad drwy gyfnod clo, cefais ychydig o gyfle i arwain gweithgareddau gyda dosbarth blwyddyn 5 ar 'Microsoft Teams'. Yn dilyn hyn, er mwyn gwella fy arfer, datblygu fy hyder a galluogi datblygiad proffesiynol, penderfynais gymryd cwrs ar-lein i ymarfer ac ehangu fy sgiliau yn defnyddio'r ap. Gan ein bod yn byw mewn cyfnod mor ansicr, a neb yn sicr am ba mor hir bydd dysgu cyfunol yn digwydd, teimlais roedd hwn yn gyfle gwych i wneud hyn. Yn ystod y cwrs

ECAD6008

datblygais fy sgiliau a gwybodaeth am rannu sgrin, defnyddio meddalweddau gwahanol o fewn 'Teams', rhannu cyhoeddiadau a llawer mwy.

Gwybodaeth bynciol / Subject knowledge

Tystiolaeth gan ased? ☐

Ddim yn berthnasol

Safonau/ Safonau

Profiad Proffesiynol Templed 1: Gludwch destun yma

Safon Addysgeg: Hyrwyddo: Dilyniant mewn Dysgu

Beth wnaethoch chi a pham?

Yn ystod yr wythnos hon yn yr hwb, penderfynais ganolbwyntio ar fesur fel pwnc mathemateg yr wythnos er mwyn sicrhau bod yna ddilyniant a strwythur sicr yn y dysgu. Yn ogystal, dyma'r gwaith gosodwyd iddynt gan eu hathrawon dosbarth, felly fe wnes i gyd-gynllunio gyda fy athrawes dosbarth a sicrhau bod fy ngweithgareddau i yn atgyfnerthu'r taflenni gwaith cwblhawyd yn y boreau. Ar ddydd Llun, wedi cwblhau taflenni gwaith yn darllen lluniau o gloriannau yn y bore, fe gynlluniais weithgaredd o bwyso nwyddau gwahanol yn ymarferol yn y prynhawn oedd yn cynnwys amcangyfrif a phwyso ar glorian mecanyddol a digidol. Mesur cynhwysiant oedd y dasg taflenni gwaith ar hwb ar fore dydd Mawrth, felly gynlluniais gêm amcangyfrif cynhwysiant yn y prynhawn iddynt gael ymarfer y sgil yn ymarferol. Y diwrnod wedyn, mesur hyd oedd y dasg daflen waith gan yr athrawon, a throsi'r unedau o filimetrau i gentimetrau a metrau. Felly er mwyn iddynt gael profiadau cyfunol o ddysgu mewn amgylchedd gwahanol, fe gynlluniais weithgaredd mesur allan ar y buarth, ac yna cyfrifo perimedr, amrediad, modd a chanolrif. Ac ar ddydd lau roeddent unwaith eto'n ymarfer trosi unedau g>kg a l>ml, felly ar gyfer y prynhawn fe gynlluniais gêm cardiau ac roedd rhaid iddynt ddarganfod eu partner gyda'r unedau wedi trosi mewn gêm "Mae geni ..., pwy sydd gyda...?".

Dilyniant mewn dysgu

Fel y nodwyd uchod, yr wythnos hon, ac mewn cynlluniau eraill, fe wnes i sicrhau fod yna ddilyniant yn eu dysgu nhw. Fe wnes i hyn drwy gydol yr wythnos gan sicrhau fod yna ddilyniant o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ogystal, fe wnes i gyd-gynllunio gyda'r athrawes er mwyn sicrhau fod yna ddilyniant yn y gweithgareddau bore a phrynhawn er mwyn i'r disgyblion gael cyfle i ymarfer y sgiliau taflenni gwaith yn ymarferol, ac atgyfnerthu'r sgiliau hyn. Uwchleuodd Dunlop a Fabian (2002) bwysigrwydd dilyniant mewn dysgu ar gyfer plant mewn addysg gynnar er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gorau allan o addysg. A bod treulio amser ar un thema neu syniad a'u hymhelaethu yn gallu arwain at ddysgu mwy hirdymor yn hytrach na neidio o un thema i un arall lle mae'r plant yn anghofio geiriau neu wybodaeth yn fwy cyflym.

Profiadau Dysgu Cyfunol

Ar ddydd Mercher yr wythnos hon, cafodd y disgyblion gyfle i fynd allan ar y buarth a chwblhau'r dasg mesur mewn amgylchedd tu allan. Gofynnwyd iddynt gydweithio i fesur y pellter rhwng bob côn A-F gan ddefnyddio olwyn fesur, yna dod yn ôl i mewn i'r ystafell dosbarth er mwyn cwblhau cyfres o gwestiynau'n gysylltiedig â pherimedr, amrediad, modd a chanolrif. Fe wnaeth y disgyblion wir fwynhau camu allan o'r ystafell dosbarth a theimlaf wnaeth hyn hwyluso'r dasg yn fawr.

Ymelwa ar feysydd dysgu

Roedd un sesiwn bob brynhawn yr wythnos hon wedi eu penodi ar gyfer maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd, ac mae'r gweithgareddau a gynlluniwyd yn hanfodol ar gyfer datrys problemau yn y byd go iawn ac yn chwarae rôl allweddol yn ein bywydau bob dydd. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod y profiadau yma mor gyffrous, diddorol a chreadigol â phosib (Cwricwlwm Cenedlaethol, 2020). Teimlaf i mi wneud hyn yn llwyddiannus yr wythnos hon drwy atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd yn y bore ar ffurf dysgu gyfunol, mewn gweithgareddau ymarferol, hwylus yn ymarfer sgiliau hanfodol a hybu gwydnwch mathemategol.

Cyd-destunau bywyd go iawn, dilys

Gan fod y sgiliau o fesur yn rhai hanfodol, ac yn sgiliau a ddefnyddir o ddydd i ddydd, mae meistrolï'r sgiliau yma'n ymarferol yn hynod o bwysig. Felly, yn sicr, roedd cynllunio ac arwain gweithgareddau ymarferol i feistrolï'r sgiliau yma yn bwysig.

Beth rydych chi wedi'i ddysgu?

Drwy'r profiad yma, fe ddysgais bwysigrwydd gwneud gweithgareddau tebyg fel pwysu yn ymarferol er mwyn meistrolï sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd, gan fod darllen clorian ar daflen waith yn hollol wahanol i ddarllen clorian yn ymarferol. Roedd gofyn iddynt amcangyfrif mewn cwpl o dasgau'n ymarfer da iddynt ddod i ddeall gwerth pwysau neu gynhwysiant gwrthrychau penodol. Fe wnes i ddysgu bod newid amgylchedd dysgu er enghraifft symud y dysgu tu allan, er ei fod yn dasg efallai gallent wedi eu cyflawni tu fewn, yn hwyluso'r dasg yn fawr iawn ac yn annog cyfranogiad a ffocws. O ganlyniad, mae hyn yn ystyriaeth enfawr i mi weithredu mewn tasgau yn y dyfodol ac wrth ddechrau fy ngyrfa fel athrawes.

Beth nesaf?

O ganlyniad i'r profiad yma, bwriadaf i gyd-gynllunio gyda fy mentor dosbarth er mwyn cynllunio gweithgareddau ymarferol ar gyfer plant yr hwb, sy'n atgyfnerthu'r gweithgareddau ysgrifenedig caiff eu cyflwyno iddynt yn y boreau. Mae hyn yn sicrhau dilyniant mewn dysgu mewn sawl modd, ac yn sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfle i gwblhau sgiliau hanfodol yn ymarferol, efallai na fyddent yn cael cyfle i wneud adref. Yn ogystal, rwyf wir wedi dysgu gwerth sicrhau dilyniant mewn

dysgu o ddechrau'r wythnos i ddiwedd yr wythnos er mwyn meistrolï sgiliau ac arwain at ddysgu mwy hirdymor, felly mae hyn yn ystyriaeth rwy'n sicr o weithredu yn y dyfodol.

Profiad Proffesiynol Templed 2: Gludwch destun yma

Safon Addysgeg: Mireinio: Rheoli'r Amgylchedd Dysgu

Beth wnaethoch chi a pham?

Am gwpl o wythnosau yn olynol, gosodwyd y targed i mi i ddatblygu fy sgiliau a hyder mewn rheolaeth ddosbarth ac amgylchedd dysgu ac er mwyn cyrraedd y targed fe wnes i sicrhau fy mod yn mabwysiadu ac yn defnyddio strategaethau oedd yn barod wedi eu sefydlu yn y dosbarth. Yr un mwyaf amlwg oedd yn cael effaith sylweddol ar y disgyblion oedd siart ymddygiad y dosbarth gyda phegiau â'u henwau arnynt. Ar ddechrau bob dydd roedd pob disgybl yn dechrau ar "barod i ddysgu" ac os oeddent yn modelu ymddygiad da neu'n cyflawni gwaith da roeddent yn symud i fyny i "da iawn" ac yna "rwyf i'n seren". Ar y llaw arall, os oeddent yn modelu ymddygiad gwael o ryw fath, roeddent yn symud i lawr i "amser meddwl", "mynd i weld y brifathrawes" a'r senario waethaf i lawr i "ffonio adref". Strategaethau eraill wnes i fabwysiadu yn y broses yma oedd gwobrwyo ymddygiad a gwaith da gyda sticeri, ac er mwyn sicrhau roedd pob plentyn yn barod i ddysgu ar ddechrau bob gwers roeddwn yn hoelio'u sylw mewn dilyniannau lle'r oedd rhaid iddynt fy nghopiïo i o roi dwylo ar y pen, ysgwyddau, trwyn, bol ayyb. Roedd hyn yn sicr yn hoelio'u sylw ac o ganlyniad roeddent yn ymwybodol fod y wers yn barod i ddechrau ac felly'n amser i ganolbwyntio. Yn ogystal, roedd dangos gwaith da wedi'u cyflawni gan ddisgyblion gwahanol ar ddiwedd gwersi hefyd yn fodd o hyrwyddo arfer dda ac yn annog aelodau eraill o'r dosbarth i ymdrechu er mwyn cael clod tebyg.

Wedi ymchwilio, mae'n sicr bod y defnydd o wobrwyo a chanmol ymddygiad neu berfformiad da yn debygol iawn o ysgogi'r dysgwyr i ailadrodd yr ymddygiad dymunol yma (Pritchard, 2017; Apps, 1981). Cred llawer hefyd bod gwobrwyo ymddygiad dymunol a chosbi gweithrediadau annymunol yn arwain at ymddygiad annymunol yn diflannu'n raddol ac yn gadael yr ymddygiadau a ystyrir yn fuddiol ar gyfer dysgu yn unig (Payne, 2015; Elliot & Busse, 1991). Awgryma Pritchard (2017) y dylai gwobrau gynnwys y dewis i ddileu'r wobwr er mwyn sicrhau bod yr arfer da a'r ymddygiadau cadarnhaol cael eu hailadrodd ac yn parhau er mwyn osgoi cael eu dileu, a dyma'r achos gyda sticeri a'r siart ymddygiad.

Rheoli'r amgylchedd dysgu a'r Pedwar Diben.

Wrth ystyried pwysigrwydd yr amgylchedd dysgu, mae hyrwyddo arferion ac ymddygiad da yn hanfodol o fewn dosbarth drwy ddatblygu strategaethau a sicrhau amgylchedd cadarnhaol sy'n hyrwyddo dysgu yn hollol bwysig er mwyn galluogi hyn. Wrth ddefnyddio'r strategaethau dewisol, fel y gwelir uchod, i reoli'r amgylchedd dosbarth, gafodd hyn effaith hynod o effeithiol ar eu hymddygiad a'u parodrwydd i ddysgu a dilyn rheolau. Mae gwobrwyo disgyblion yr oed yma am ymddygiad da yn sicr yn annog y disgyblion i barhau gyda'r arferion yma, ac yn sicr yn annog eraill i ymddwyn mewn ffyrdd tebyg er mwyn cael gwobr debyg. Roedd hyn yn amlwg iawn wrth eistedd ar y carped wrth wneud cyflwyniadau'r gwersi, roedd gwobrwyo un disgybl a gofyn iddynt godi peg ar y siart yn arwain at bron pob disgybl arall yn dilyn yr ymddygiad yma er mwyn ceisio cael eu gwobrwyo hefyd. Mae defnyddio rheolaeth ddosbarth o hyrwyddo arferion da ac ymddygiadau dysgu cadarnhaol yn sicr yn cyd-fynd gyda'r pedwar diben, wrth gefnogi'r dysgwyr i ddod yn ddysgwyr uchelgeisiol sy'n barod ac yn awyddus i ddysgu, yn gyfranwyr mentrus creadigol sy'n awyddus i gymryd rhan a chyfranogi er mwyn cael clod. Hefyd, yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n dilyn rheolau'r dosbarth ac yn sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol i eraill, ac yn unigolion hyderus drwy ffurfio perthnasoedd cadarnhaol rhyngddyn nhw, ei gilydd a mi fel athrawes. Ac felly, wrth reoli'r amgylchedd dysgu, roeddwn yn sicr yn arddangos gwybodaeth am anghenion pob dysgwr drwy sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle orau i wella mewn amgylchedd sy'n galluogi hyn.

Ymdrech barhaus a gwydnwch dysgwyr

Wrth ddefnyddio'r strategaethau yma, roeddwn yn sicr yn gwneud ymdrech barhaus i sicrhau amgylchedd cadarnhaol i bawb er mwyn galluogi'r dysgu orau posib i gymryd lle drwy hyrwyddo "hunan ysgogi a hunangyfeirio" ymhlith y dysgwyr ac yn eu cefnogi i weithredu hyn er mwyn bod y fersiwn gorau o'u hun sy'n bosib drwy annog yr awydd i eisiau llwyddo'n academaidd ac yn ymddygiadol o fewn dosbarth.

Deilliannau dysgu a lles.

Wrth ddangos gwaith y plant oedd yn llwyddo a gwobrwyo arfer dda, roedd hyn yn sicr yn cael effaith cadarnhaol ar les y plant ac yn codi hyder a chymhellant o fewn y dosbarth. Yn ogystal, er mwyn creu amgylchedd dysgu hyd yn oed mwy cadarnhaol, roedd hyrwyddo'r ffaith ei fod yn iawn i wneud camgymeriad a gofyn i eraill helpu er mwyn cywiro hyn yn rhan enfawr o gyflwyniadau dosbarth cyn gwersi. Wrth gwestiynu, neu gyflawni tasgau dosbarth a gofyn i ffrindiau helpu pan roedd disgyblion yn ateb neu'n cyflawni tasg yn anghywir. Roedd y strategaeth yma, unwaith eto, yn codi hyder ac o ganlyniad yn gwella lles y plant yn y dosbarth.

Beth rydych chi wedi'i ddysgu?

Rwyf yn sicr wedi dysgu gwerth cael strategaethau rheoli ymddygiad yn eu lle o fewn dosbarthiadau er mwyn hyrwyddo arfer ac ymddygiad da gyda gwobrau, a chondemnio agwedd negyddol gyda chosbau. Rwyf hefyd wedi dysgu pwysigrwydd sicrhau bod y gwobrau yn cynnwys opsiwn i'w dileu er mwyn sicrhau bod yr ymddygiadau cadarnhaol yn parhau ac yn cael eu hailadrodd. Mae strategaethau tebyg yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn un sy'n rhoi cyfle cyfartal i alluogi'r cymaint o ddysgu ag sy'n bosib digwydd ac i bob disgybl cyrraedd eu potensial lawn. Mae pob strategaeth a nodwyd uchod, o fy mhrofiad, yn strategaethau llwyddiannus iawn ac mi fyddaf yn sicr yn rhannu'r rhain wrth ddechrau fy ngyrfa, yn enwedig y siart ymddygiad. Mae hefyd wedi dysgu gwers i mi fod gwobrwyo ymddygiad da o flaen dosbarth yn gallu bod yn fwy effeithiol na chosbi ymddygiad drwg, oherwydd wrth i blant clywed clod mae'n eu hannog nhw i ddilyn yr ymddygiad da er mwyn derbyn clod eu hunain.

Beth nesaf?

Yn dilyn y profiad hwn, bwriadaf, yn sicr, arbrofi gyda strategaethau tebyg ond ychydig mwy aeddfed ar fy mhrofiad dysgu yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn hyrwyddo arfer da ac ymddygiad da yn y cyfnod hwnnw hefyd. Yn ogystal, rwy'n benderfynol o ddefnyddio strategaethau tebyg wrth ddechrau fy ngyrfa fel athrawes, sef siart ymddygiad, gan i mi deimlo roedd yn cael cymaint o effaith ar hyrwyddo ymddygiad da yn y dosbarth, ac yn sicr yn gwneud i blant i eisiau llwyddo. Er mwyn dod yn fwy hyderus gyda strategaethau tebyg, bwriadaf dal ati i'w defnyddio'r flwyddyn yma fel fy mod yn barod ac yn hyderus yn eu defnyddio pan ddaw'r amser i ddechrau fy ngyrfa.

Profiad Proffesiynol Templed 3: Gludwch destun yma

Safon Addysgeg: Dylanwadu: Dysgwyr yn arwain y dysgu

Beth wnaethoch chi a pham?

Yn wythnosol wrth fynychu i gynorthwyo ac addysgu yn yr Hwb yn ystod cyfnod clo, buom yn cyflawni taflenni yn casglu barnau a syniadau'r disgyblion am lwyddiant tasgau'r wythnos honno, a chyflwyno is-thema'r wythnos ganlynol gan ofyn iddynt ba fath o bethau hoffent ddysgu amdanynt, a pha fath o dasgau hoffent eu cyflawni. Gwnaethpwyd hyn ar ffurf nodiadau gludiog, fel roedd yr atebion yn anhysbys er mwyn cael atebion mor onest â phosib. Yn dilyn hyn, roedd yr atebion dderbyniais yn bwydo mewn ac yn llywio cynlluniau'r wythnos ganlynol. Fel y nodwyd gan Estyn (2018) mewn adroddiad arfer dda, mae sicrhau bod llais y disgybl yn ganolog i gynlluniau ac agweddau eraill o fywyd ysgol yn hanfodol. Yn sicr, fe wnaeth hyn yn ennyn mwy o ddiddordeb yn y tasgau dan sylw, gwella dealltwriaeth mewn meysydd oedd o ddiddordeb iddyn nhw ac o ganlyniad wedi gwella dealltwriaeth a gwybodaeth a'u harwain cam yn nes at y 4 diben i ddysgwyr.

Gwranddo ar ddysgwyr a Disgyblion yn arwain y dysgu.

Ar daflen A3 a gan ddefnyddio nodiadau gludiog, gofynnwyd i'r disgyblion nodi un dasg wnaethant fwynhau'r wythnos honno, un dasg ni wnaethant fwynhau neu ymddangosodd yn rhy heriol neu hawdd, ac unrhyw syniadau o dasgau hoffent gyflawni neu bwnc penodol o fewn y thema i ddysgu amdano. Yn yr wythnos benodol hon, nododd mwy nag un disgybl iddynt fwynhau'r gweithgaredd mesur tu allan, sy'n rhoi'r argraff eu bod yn mwynhau'r tasgau ymarferol mewn amgylchiadau gwahanol. Fe wnaeth un disgybl sôn roedd dasg yn defnyddio thesawrws a mentimerter ychydig yn hawdd, felly'n cadarnhau'r lefel o her ar gyfer tasgau'r wythnos ganlynol. Felly, dangosa hyn fy mharodrwydd i wrando ar "farn dysgwyr, ac ystyried y farn honno, er mwyn eu cynnwys a'u hannog i gymryd rhan weithredol a llawn yn eu dysgu eu hunain." Yn olaf, wedi cyflwyno is-thema'r wythnos ganlynol sef cynhesu byd-eang, fe'u cyflwynwyd sawl syniad o beth hoffent ddysgu amdano. Er enghraifft, dysgu am yr arth wen neu'r pengwin yn yr Antartig, dysgu am effaith cynhesu byd-eang yn Awstralia, cymharu'r effaith ar wahanol lefydd o'r byd ac astudio ychydig am David Attenborough. Yn dilyn hwn, fe wnaeth y syniadau yma lywio'r cynlluniau ar gyfer yr wythnos ganlynol, fel gwelir y tasgau yn yr atodiad. Fe wnaethom gyflawni hysbyseb i achub eirth wen ar ôl gwylio clip David Attenborough, erthygl papur newydd am danau gwyllt Awstralia, tasgau darllen a deall am anifeiliaid ar draws y byd, cerdd perfformiadwy (neu rap) am gynhesu byd-eang a llythyr at David Attenborough. Dangosa hyn fy ymwybyddiaeth o "bwysigrwydd annog

dysgwyr i fyfrio am eu dysgu eu hunain", sicrhau bod llais y disgybl yn ganolog i'r cynllunio fel eu bod nhw'n teimlo rheolaeth dros eu dysgu a'n hwyluso'r broses.

Myfrio ar ddysgu

Drwy ofyn i'r disgyblion beth oeddent wedi mwynhau neu heb ei fwynhau'r wythnos honno, cynhaliwyd trafodaeth am y tasgau, am beth oeddent wedi dysgu drwy gyflawni'r gweithgareddau. Yn ogystal, trafodwyd lefel her y tasgau. Hefyd, gofynnwyd iddynt fyfrio ar beth hoffent ddysgu yn y dyfodol. Rwy'n llawn ymwybodol o bwysigrwydd "annog dysgwyr i fyfrio ar ymddygiadau dysgu a rhagolygon dysgu a'u gwerthuso."

Gwerthuso effaith newid mewn arfer

Yn dilyn yr wythnos hon, mewn trafodaeth gyda fy mentor dosbarth ac uwch fentor, trafodom gymaint o effaith cafodd yr arfer ar ddysgu disgyblion. Roedden nhw'n llawer mwy brwdfrydig i ddysgu am yr hyn dymunant, ac o ganlyniad roedd y tasgau a gyflawnwyd o safon uchel iawn.

Beth rydych chi wedi'i ddysgu?

Dysgais, yn sicr, pa mor llwyddiannus yw defnyddio syniadau a dymuniadau dysgu'r disgyblion i lywio cynlluniau'r wythnos ganlynol. Mae'n sicr yn codi'u brwdfrydedd yn eu dysgu, yn gwneud iddynt deimlo bod ganddynt reolaeth dros eu dysgu. Dysgais hefyd wrth wneud hyn mewn modd anhysbys, eu bod nhw'n teimlo'u bod nhw'n gallu bod llawer mwy gonest am lwyddiant tasgau'r gorffennol a lefel eu her. Roedd hyn yn gymorth enfawr er mwyn gosod gweithgareddau addas ar gyfer yr wythnos ganlynol. Os yw'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau, ac yn dysgu am bethau o ddiddordeb iddynt, mae canlyniadau'r tasgau llawer gwell a'r proses dysgu ac addysgu yn llawer mwy hwylus.

Beth nesaf?

Bwriadaf, yn sicr, ddefnyddio'r arfer yma yn y dyfodol, er mwyn llywio fy nghynlluniau a hyrwyddo brwdfrydedd a rheolaeth disgyblion dros eu dysgu. Yn ogystal, bwriadaf rannu'r arfer yma gyda fy nghyd-fyfyrwyr er mwyn rhannu'r arfer dda. Teimlaf gafodd hyn cymaint o effaith ar ganlyniadau dysgu'r disgyblion, wrth ddechrau dy ngyrfa fel athrawes, rwy'n benderfynol o ddefnyddio'r arfer yma i gael y gorau allan o fy nisgyblion.

Rhan 2: Adfyfyrio Beirniadol

2058

Cyflwyniad

Yn ystod fy nghyfnod profiad ar leoliad gyda dosbarth yng nghyfnod allweddol 2, gosodwyd targed i mi i wrando ar y disgyblion a rhoi cyfle iddynt arwain y dysgu. Felly, fel y gwelir yn y templed profiad proffesiynol uchod, fe weithredais hyn mewn modd o gasglu barnau'r disgyblion am fwynhad ac effeithiolrwydd y gweithgareddau'r wythnos honno. Yn ogystal, rhoddais lais y disgyblion yn graidd i fy nghynllunio a chasglu syniadau am beth hoffent hwy ei ddysgu'r wythnos ganlynol. Mae yna ymchwil helaeth yn pwysleisio bod gan wrando ar ddysgwyr, a'u cynnwys yn y proses o gynllunio, y potensial am fuddion cadarnhaol yn y dosbarth ac ar eu dysgu (Flutter, 2007; McCallum, Hargreaves & Gipps, 2010; Millband, 2006), a dyma'n union yr arsylwais yn ystod y profiad hwn.

Yn y 'Dyfodol Llwyddiannus' (Donaldson, 2015), tynnodd Donaldson sylw at ddeuddeg egwyddor addysgeg sy'n cysylltu'n uniongyrchol â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru (2022). Nododd y dylai pob athro deimlo'n hyderus eu bod yn deall ac yn gallu cymhwyso'r holl egwyddorion addysgeg er lles eu disgyblion (Donaldson, 2015). Un o'r egwyddorion yma yw "Mae addysgu da yn cymell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain" (Donaldson, 2015), ac mae rhoi llais y disgyblion wrth galon y proses dysgu yn sicr yn gwireddu'r egwyddor yma. O ganlyniad, bwriadaf ddatblygu fy nealltwriaeth a gwybodaeth am yr egwyddor yma a'i lwyddiant mewn ymchwil blaenorol, yn ogystal ag ar lawr y dosbarth.

Trafodaeth Feirniadol ar yr Agwedd a Ddewiswyd

Profai'n anodd canfod tarddiad yr ymadrodd "llais y disgybl", ond defnyddiwyd ef yn eang ac yn aml mewn llenyddiaeth addysgol yn y blynyddoedd diweddar, a chaiff ei ddefnyddio'n gyffredinol i ddisgrifio strategaethau lle caiff disgyblion eu gwahodd i drafod eu barnau a'u hystyriaethau am faterion addysg (Arnot et al., 2004). Mae'n darparu'r cyfle i ddisgyblion ymglymu yn y proses o beth a sut maent yn dysgu, sy'n peri cyfraniad cadarnhaol at ddatblygiad eu hysgolion a datblygiad proffesiynol eu hathrawon (Millband, 2006).

Mae diddordeb rôl disgyblion yn y proses dysgu'n tyfu, wrth i ni symud tu hwnt i fodel traddodiadol o addysgu tuag at fodelau mwy adeileddol, lle mae'r disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain (Flutter, 2007). Yn draddodiadol, roedd yr athro'n addysgwyr awdurdodol yn trosglwyddo gwybodaeth, gyda rheolaeth lwyr am beth a sut roeddent yn addysgu. Yn ogystal, roedd y dysgwyr yn cael eu hystyried yn dderbynwyr goddefol o'r wybodaeth yma, ac yn dysgu'n bennaf tu ôl i fwrdd heb lais yn y dulliau addysgu (McCallum, Hargreaves & Gipps, 2010). Fodd bynnag, mae ymchwil ers hynny'n pwysleisio pwysigrwydd deall barnau a meddyliau'r dysgwyr am y proses dysgu (Arnot et al., 2004; Flutter, 2007; McCallum, Hargreaves & Gipps, 2010) ac o ganlyniad, mae ymchwil am lais disgyblion yn parhau i dyfu.

Cyhoeddwyd yn un o'r hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod rhaid sicrhau bod gan bob plentyn sydd â'r gallu i ffurfio ei farn ei hun hawl i leisio'r farn honno ym mhob mater sy'n effeithio arno, a bod y farn honno'n cael ei chlywed, a phwys priodol yn cael ei roi arni (Comisynydd Plant Cymru, 2001). Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf i wneud y Confensiwn yn rhan o'i chyfraith. Roedd hyn, yn sicr, yn gatalydd yn natblygiad "llais y disgybl". Golyga hyn ei fod o reidrwydd i roi cyfle i blant gael gwrandawriad mewn unrhyw weithdrefn sy'n effeithio arnynt mewn unrhyw fodd, ac mae addysg yn enghraifft bennaf o hyn.

Pwysleisia ymchwil fod rhoi llais i ddisgyblion yn gallu arwain at effeithiau cadarnhaol ar gynnydd dysgu disgyblion yn ogystal â gwelliannau dysgu proffesiynol athrawon. Mewn astudiaeth yn 'Exmouth Community College' archwiliwyd mewnwelediadau'r disgyblion am sut oedd gwyddoniaeth yn cael ei addysgu a sut y teimla'r disgyblion eu bod nhw'n dysgu orau. Yna, addaswyd y dulliau a phynciau addysgu yn unol â'r ymatebion dderbyniwyd. Y bwriad yma oedd cymharu'r cyraeddiadau gyda grwpiau na chafodd lais am wybodaeth bynciol a'r dulliau yr hoffent ddysgu drwyddynt. Dangosodd yr asesiadau diwedd uned gyraeddiadau sylweddol uwch ymhlith y disgyblion gafodd lais yn y proses dysgu na'r rhai gyflawnodd y prosiect dan arweiniad a dewisiadau addysgu'r athro'n unig. Darganfuwyd canlyniadau tebyg mewn astudiaeth gan Fielding a Bragg (2003) hefyd, y mwyaf mae'r disgyblion yn ymglymu yn y proses dysgu, a'u llais yn cael ei glywed, y mwyaf yw'r effaith gadarnhaol ar eu dysgu, a phrofwyd eu bod nhw'n dysgu swmp llawer mwy nag arfer yn y gwersi yma. Yn ogystal, dangoswyd mewn sawl astudiaeth arall bod gwell gan ddisgyblion cynradd gael cyfrifoldeb dros eu dysgu, heb gael eu rheoli'n gyson, ac y teimlant fod dysgu'n fwy llwyddiannus pan fod tasgau'n cael eu cyflwyno mewn ffyrdd cyffrous gyda phwyslais ar ymglymiad gweithredol, actif (Pollard et al., 2000; Cooper & McIntyre, 1996; Rudduck et al., 1996; McCallum, Hargreaves &

Gipps, 2010). Mae'n hanfodol bod athrawon yn addasu i'r ymatebion yma a rhoi barnau'r disgyblion wrth wraidd y cynlluniau er mwyn cael y gorau allan o broses llais y disgybl, nid yn unig casglu ymatebion am y proses dysgu.

Noda Estyn mewn adroddiad arfer dda am ysgol gynradd yng Nghymru bod y disgyblion yn cyfrannu'n ystyrlon i'r proses dysgu drwy arsylwi gwersi, cyfrannu at gynlluniau gwersi a chynlluniau ar gyfer y cwricwlwm, er enghraifft rhannu syniadau am themâu a chynnig gweithgareddau amlgyfrwng a thrawsgwricwlaidd i helpu datblygu agweddau o'r fframwaith cymhwysedd digidol. Profodd hyn bod rhoi llais y disgybl wrth galon dysgu'n adeiladu ymdeimlad o gymuned a pherthnasoedd cadarnhaol rhwng disgyblion a staff. Yn ogystal, adeilada gymeriadau disgyblion a'u gallu i gyfrannu at benderfyniadau cynhyrchiol a phwysig, sydd yn y pendraw yn magu sgiliau hanfodol megis cyfrifoldeb, cydweithrediad, rhagweithioldeb (Estyn, 2019). Mae Estyn, bellach, yn rhoi pwyslais enfawr ar ddarparu cwricwlwm sy'n llawn cyfleoedd am ddatblygiad personol y disgyblion a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, i alluogi i bobl ifanc, yn y pendraw, i gyfrannu'n helaeth i'r gymuned ehangach.

Un nodwedd gyson sy'n dod i'r amlwg mewn astudiaethau am lais disgyblion yw bod ymglymu'r disgyblion yn y proses dysgu yn ennyn perthynas gadarnhaol rhwng y disgybl a'r athro. Darganfyddodd Flutter (2007) fod achlysuron lle mae'r athrawon a'r disgyblion wedi gallu sefydlu perthnasoedd sy'n gyfoethog mewn ymddiriedaeth a chydweithrediad wrth weithredu strategaethau "llais y disgybl", wedi arwain at amgylcheddau dysgu llawer mwy cadarnhaol, ac o ganlyniad, gyraeddiadau uwch. Fodd bynnag, ar y llaw arall, mynega ychydig o ysgolion ymatebion cymysg oddi wrth athrawon (Sutherland, 2006), bod llais athrawon weithiau'n gallu cael eu hymyleiddio wrth wthio i wrando a chynnwys llais disgyblion. Yn ogystal, noda eraill fod gan "lais y disgybl" y potensial i danseilio awdurdod athrawon, sy'n bosib o arwain at newid y berthynas pŵer rhwng athrawon a disgyblion sydd eisoes yn bodoli mewn ysgolion (Flutter, 2007). O ganlyniad, mae'n bosib bod pwyslais gormodol ar lais disgyblion yn cario risg o lais athrawon yn cael ei dawelu.

Er bod yna dystiolaeth helaeth mewn gwaith ymchwil yn awgrymu bod strategaethau 'llais y disgybl' yn gallu arwain at effeithiau cadarnhaol yn y dosbarth, mae'n amlwg bod yna faterion pwysig sydd angen eu hystyried i bwysu a mesur yr effeithiau cadarnhaol posib yn erbyn yr anfanteision posib. Beirniadaethau sydd wedi eu nodi'n aml mewn ymchwil yw bod gwendidau mewn rhai astudiaethau athrawon gan mai lleisiau'r dysgwyr mwyaf croyw a hyderus yn unig sy'n cael eu clywed, ac o ganlyniad, eu barnau nhw yn unig gaiff eu hystyried (Flutter, 2007;

McIntyre, Pedder & Rudduck, 2005; Millband, 2006). Oherwydd hyn, y disgyblion mwyaf hyderus a chroyw sydd fwyaf tebygol o siapio penderfyniadau eu cyd-ddysgwyr, sydd, yn eironig, yn gadael eraill yn teimlo wedi'u difreinio mewn proses wedi ei ddylunio i'w awdurdodi nhw (MacBeath et al., 2003). Datblyga Arnot ac eraill, (2004) ar hyn gan bwysleisio bod athrawon yn elwa fwyaf drwy wrando ar farnau'r disgyblion o gyraeddiadau is a llai croyw. Yn ogystal, nododd fod gwrandio ar leisiau'r disgyblion llai abl yn cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion yma'n benodol. Fe gynhaliodd Arnot ac eraill (2004) sgwrs gyda disgyblion oedd yn tangyflawni ac fe fynegon nhw "how tense and vulnerable they felt in the classroom and how they tried to find ways of learning but had difficulty" (Arnot et al., 2004, p.84). Felly, mae'n amlwg wrth weithredu strategaethau "llais y disgybl" bod angen talu sylw blaengar i sicrhau bod y proses yn un sy'n galluogi'r amrywiaeth mwyaf eang o leisiau'n cael eu clywed (Flutter, 2007). Dylai "llais y disgybl" fod yn rhan o ethos ysgol gydweithredol sy'n cynnwys pob un disgybl yn yr ysgol (Sutherland, 2006). Yn union fel mae hyn yn awgrymu, mae'r proses o gynnwys "llais y disgybl" yn broses cymhleth iawn, ond byddai strategaethau cynhwysol tebyg yn sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol posib sy'n deillio o'r defnydd o "lais y plant" yn cael eu huchafu (macsimeiddio).

Dadl arall sy'n codi mewn ymchwil yw nad yw'n bosib gweithredu llais y disgybl ar bob cyfnod o'r daith ddysgu gan fod rhai disgyblion yn rhy ifanc i fynegi eu barn yn glir ac yn rymus (Lindley, Brinkhuis & Verhaarm 2010). Fodd bynnag, mae astudiaeth beilot gan McCallum, Hargreaves a Gipps (2010) mewn 44 ysgol o amgylch Llundain, wedi canfod bod disgyblion mor ifanc â saith mlwydd oed yn deall union gysyniad 'dysgu' croyw strategaethau a phrosesau dysgu maent yn eu defnyddio, a'u barnau am y rhain mewn ffyrdd syml iawn. Fe lwyddodd y disgyblion yn yr astudiaeth yma fynegi barnau am beth oedd yn gwneud athro a gwers dda.

Mae ymatebion tebyg yn galluogi athrawon i addasu eu harddulliau dysgu i ddiwallu anghenion pob disgybl, sy'n gwella'u harferion addysgu yn ogystal â gwella cyraeddiadau'r disgyblion. Wrth ystyried y pedwar dimensiwn yn y 'Great Teaching Toolkit' gan Coe ac eraill (2020) sy'n arwain at yr addysgu gorau posib, byddai gweithredu llais y disgybl yn effeithiol ar lawr dosbarth yn cyfrannu at bob dimensiwn. I wireddu'r dimensiwn cyntaf o sicrhau dealltwriaeth cynnwys, byddai angen cynllunio'n unol â syniadau'r disgyblion a gwella hunan-ddealltwriaeth yr athro am y pwnc dan sylw, fel eu bod yn gallu cyflwyno'r testun i'r safon orau posib. Byddai creu amgylchedd lle mae llais disgyblion yn cael ei glywed a pherthnasoedd da rhwng yr athro a'r disgybl yn cysylltu'n uniongyrchol â'r ail ddimensiwn, sef creu amgylchedd cefnogol. Y trydydd dimensiwn yw uchafu'r cyfleoedd dysgu, ac mae rhoi llais y disgyblion wrth wraidd y cynllunio, o

brofiad personol ac o gasgliadau ymchwil, yn ennyn mwy o ddiddordeb gan ddisgyblion yn y tasgau, ac o ganlyniad yn arwain at gyfleoedd mwy hwyllog, cymhellant uwch a chanlyniadau dysgu gwell. Ysgogi meddwl annibynnol a chaled yw'r dimensiwn olaf, a byddai rhoi penderfyniadau yn nwylo'r disgyblion yn rhoi rheolaeth iddynt dros eu dysgu, sy'n ennyn annibyniaeth ac ymdeimlad o gyfrifoldeb, yn sicr yn gwireddu'r dimensiwn yma hefyd. Mae'r holl ddimensiynau yna'n arwain at addysgu gwell sy'n hanfodol ar gyfer canlyniadau disgyblion. Noda Wiliam (2018) mai gwella ansawdd addysgu mewn ysgolion yw'r un peth mwyaf effeithiol y gallwn wneud i hybu cyraeddiadau ac ecwiti cyffredinol.

Casgliad

Yn dilyn fy mhrofiad y cyfeiriais ato yn y templed uchod, teimlaf fod y modd y gwnes i weithredu'r gweithgaredd yn effeithiol, er mai grŵp bach o ddisgyblion oedd gennyf. Roedd y dull yma'n rhoi cyfle i bob disgybl fynegi ei farn boed beth yw ei gyraeddiadau, ac o ganlyniad, cafodd llais pob disgybl ei glywed. Yn ogystal, sicrhodd y dull yma onestrwydd gan bob disgybl wrth roi cerdyn gludiog iddynt a chyfle iddynt ei gyflwyno'n anhysbys. Wrth roi'r syniadau a'r barnau yma wrth graidd fy nghynllunio, gwelais gymaint o effaith gadarnhaol gafodd hyn ar fwynhad a chanlyniad y tasgau a gyflawnwyd. Felly, wrth ystyried y llwyddiant brofais i, a'r ystod eang o dystiolaeth mewn ymchwil yn pwysleisio'r potensial am fuddion mewn dysgu wrth gynnwys llais y disgybl, fy ngham nesaf, yn sicr, fyddai gweithredu ar lawr dosbarth gyda dosbarth cyfan i arbofi'r effaith a gaiff ar raddfa fwy. Os yw hyn yn profi'r un llwyddiant, bwriadaf, yn sicr, ei weithredu'n aml yn ystod fy mhrofiad ar y lleoliad nesaf a thrwy gydol fy ngyrfa fel athrawes, i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion a gwella fy arfer fy hun yn ogystal.

I gloi, cytunaf yn llwyr gyda Flutter (2007) ei fod yn sicr yn werth treulio amser ac egni gwerthfawr ar strategaethau llais y disgybl, gan fod buddion potensial y dulliau addysgu yma, yn enwedig yn nhermau datblygiad addysgu a dysgu, yn amlwg yn gorbwyso'r anfanteision posib. Mae hyn yn wir yn enwedig pan gâi'r dulliau eu gweithredu mewn modd effeithiol a chywir.

Rhestr Gyfeirio

Annot, M., McIntyre, D., Pedder, D. and Reay, D., 2004. *Consultation in the classroom: Developing dialogue about teaching and learning*. Pearson.

Children's Commissioner for Wales. 2021. *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - Testun llawn - Children's Commissioner for Wales*. [online] Available at: <<https://www.complantcymru.org.uk/confensiwn-y-cenhedloedd-unedig-ar-hawliau-plentyn-testun-llawn/>> [Accessed 19 February 2021].

Coe, R., Rauch, C.J., Kime, S. and Singleton, D., 2020. Great Teaching Toolkit: Evidence Review. *Cambridge Assessment International Education*.

Cooper, P. and McIntyre, D., 1996. The importance of power-sharing in classroom learning. *Teaching and Learning in Changing Times*. Oxford: Blackwell, pp.88-108.

Donaldson, G., 2015. *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Flutter, J., 2007. Teacher development and pupil voice. *The Curriculum Journal*, 18(3), pp.343-354.

Hopkins, E.A., 2008. Classroom conditions to secure enjoyment and achievement: the pupils' voice. Listening to the voice of Every child matters. *Education 3–13*, 36(4), pp.393-401.

Lindley, E., Brinkhuis, R. and Verhaar, L., 2010. Too young to have a voice?. *Responding to Diversity in Schools: An Inquiry-Based Approach*, p.81.

MacBeath, J., Demetriou, H. and Rudduck, J., 2003. *Consulting pupils: A toolkit for teachers*. Pearson.

Maitles, H. and Deuchar, R., 2006. we don't learn democracy, we live it!' consulting the pupil voice in Scottish schools. *Education, Citizenship and Social Justice*, 1(3), pp.249-266.

Marsh, H., 2012. Relationships for learning: using pupil voice to define teacher– pupil relationships that enhance pupil engagement. *Management in Education*, 26(3), pp.161-163.

McCallum, B., Hargreaves, E. and Gipps, C., 2000. Learning: The pupil's voice. *Cambridge Journal of Education*, 30(2), pp.275-289.

McIntyre, D., Pedder*, D. and Rudduck, J., 2005. Pupil voice: comfortable and uncomfortable learnings for teachers. *Research papers in education*, 20(2), pp.149-168.

Miliband, D., 2006. Choice and voice in personalised learning. *Schooling for tomorrow: Personalising education*, pp.21-30.

Pollard, A., 2000. Towards a sociology of learning in primary. *Sociology of Education: Major Themes*, 1, p.1191.

Rudduck, J., Chaplain, R. and Wallace, G. eds., 1996. *School improvement: What can pupils tell us?*. Routledge.

Sutherland, G., 2006. Voice of change: embedding student voice work. *Curriculum Briefing*, 4(3), pp.8-11.

Wilson, F. and Miller, J., 2016. Canllaw ar gyfer Rheoli Newid Cwricwlaidd yng Nghymru. *Cefnogaeth i arweinyddion uwch a chanol*, pp.1-16.